This document is also available in English

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**CYNNWYS**

**ADRAN 13**

**13.** **Cyllid, Contractau a Materion Cyfreithiol**

13.1 Rheolaeth Ariannol
13.2 Contractau
13.3 Achosion cyfreithiol
13.4 Dilysu dogfennau
13.5 Sêl Gyffredin y Cyngor

## ADRAN 13 - CYLLID, CONTRACTAU A MATERION CYFREITHIOL

### 13.1 Rheolaeth Ariannol

Cynhelir rheolaeth o faterion ariannol y Cyngor yn unol â’r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a nodir yn Adran 17 y Cyfansoddiad hwn.

### 13.2 Contractau

Bydd bob contract a wneir gan y Cyngor yn cydymffurfio â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau a nodir yn Adran 18 y Cyfansoddiad hwn.

### 13.3 Achosion cyfreithiol

Mae Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu wedi’i awdurdodi i:-

Sefydlu, amddiffyn, setlo a chymryd rhan mewn unrhyw achosion cyfreithiol (un ai yn enw’r Cyngor neu yn enw swyddog penodol y Cyngor) mewn unrhyw achos lle mae camau o’r fath ei angen i weithredu penderfyniadau’r Cyngor neu mewn unrhyw achos lle mae Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu yn meddwl fod cam o’r fath ei angen i ddiogelu buddiannau’r Cyngor.

### 13.4 Dilysu dogfennau

13.4.1 Os oes angen dogfen ar gyfer unrhyw achos neu weithdrefn gyfreithiol ar ran y Cyngor, caiff ei lofnodi gan Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu neu unigolyn arall sydd wedi’i awdurdodi ganddo ef/ganddi hi, oni bai bod deddfiad yn awdurdodi neu’n ei gwneud yn ofynnol, neu fod y Cyngor yn rhoi awdurdodiad gofynnol i unigolyn arall.

13.4.2 Bydd unrhyw gontract sydd werth dros £50,000, sy’n cael ei lunio ar ran y Cyngor yn cael ei wneud yn ysgrifenedig ac ar ffurf contract wedi’i gymeradwyo gan y Swyddog Monitro. Yn amodol ar Reolau'r Weithdrefn Gontractau, rhaid i gontractau o’r fath gael eu llofnodi gan o leiaf ddau Swyddog o’r Cyngor neu eu gwneud o dan sêl gyffredin y Cyngor wedi’i ardystio gan o leiaf un Swyddog os ydynt werth mwy na £250,000.

13.4.3 Yn ogystal ag unrhyw berson arall a allai gael eu hawdurdodi drwy benderfyniad y Cyngor, y Swyddog Priodol er mwyn dilysu dogfennau o dan y Deddfau Llywodraeth Leol fydd:

(a) Y Prif Weithredwr;

(b) Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu;

(c) unrhyw Brif Swyddog y Cyngor sy’n ymwneud â'r mater y mae'r dogfennau yn ymwneud ag ef; neu,

(d) unrhyw Swyddog sydd wedi cael ei awdurdodi’n ysgrifenedig gan y Prif Swyddog.

### 13.5 Sêl Gyffredin y Cyngor

(a) Sêl Gyffredin

13.5.1 Bydd Sêl Gyffredin y Cyngor yn cael ei chadw mewn lleoliad diogel yng ngofal Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu.

13.5.2 Bydd penderfyniad y Cyngor, gan gynnwys penderfyniadau o dan bwerau dirprwyedig, yn awdurdod digonol i selio unrhyw ddogfen sy'n angenrheidiol i roi effaith i'r penderfyniad.

(b) Selio a Gweithredu Dogfennau

13.5.3 Bydd gosod y Sêl Gyffredin yn cael ei ardystio gan Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu neu unigolyn arall sydd wedi'i awdurdod ganddo ef/ganddi hi. Bydd cofnod o bob dogfen sydd yn cael ei selio yn cael ei wneud, a'i rifo'n olynol, mewn llyfr a gedwir at y diben hwnnw, a bydd yn cael ei lofnodi gan yr unigolyn a fydd wedi ardystio'r sêl.

13.5.4 Bydd gan Swyddogion y Cyngor y cyfeirir atynt uchod yr awdurdod i weithredu unrhyw weithred neu ddogfen sydd ddim yn ofynnol gan y gyfraith i fod o dan y sêl sy'n angenrheidiol at effaith penderfyniadau'r Cyngor.

13.5.5. Gall y swyddogaeth hon gael ei ddirprwyo ymhellach gan y personau a enwir.

(c) Cofnod o Selio Dogfennau

13.5.6 Bydd Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu yn gwneud cofnod o bob gweithred neu ddogfen sydd wedi cael Sêl Gyffredin, ac yna byddant yn cael eu rhifo mewn llyfr sydd wedi cael ei ddarparu at y diben hwnnw.